# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

**MB (08-09) Papur 4 (Rhan 1)**
**Adroddiad Rheolaeth Ariannol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 8 Hydref 2009
**Amser:** 09:30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Roger Beale

## Adroddiad Rheolaeth Ariannol:
## Y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Awst 2009

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y fewnrwyd.***

**TROSOLWG AR BERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y CYFNOD DAN SYLW**

1. **Y gwariant net erbyn diwedd mis Awst oedd £16.9 miliwn, sef tanwariant o 4.3% (£0.8miliwn) yn erbyn targed o £17.7 miliwn a bennwyd ar gyfer y cyfnod. Gellir priodoli 0.9% (£0.170 miliwn) o'r tanwariant hwn i gostau yr ymrwymwyd iddynt ond na chawsant eu talu'n ôl y disgwyl yn ystod y cyfnod dan sylw, gweler paragraff 5 i weld y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn. O ystyried hyn, y tanwariant cyfredol yw 3.4% (£0.6 miliwn), ac mae 1.6% (0.275 miliwn) eisoes wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn. Targed y Dangosydd Perfformiad Allweddol, yw sicrhau na fydd mwy na 2% o amrywiant rhwng gwir wariant a'r gyllideb a bennwyd erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae gwaith ar y gweill yn y cyswllt hwn, fel yr eglurir ym mharagraff 5 isod. Yn ystod yr un cyfnod y llynedd, 3% oedd y tanwariant, a'r tanwariant y mis diwethaf oedd 5.3%.**

2. **Mae dadansoddiad manwl ategol i'w weld yn yr atodiad:**

   - **Mae Nodyn 1 yn cyflwyno perfformiad cyllidebol yn ôl meysydd gwasanaeth**
   - **Mae Nodyn 2 yn rhoi eglurhad dros yr amrywiannau**

- **Mae Nodyn 3 yn crynhoi'r gwariant yn ôl natur y gost**
- **Mae Nodyn 4 yn rhoi trosolwg ar y gronfa wrth gefn, arian y cytunwyd i'w drosglwyddo a cheisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn.**
- **Mae Nodyn 5 yn rhestru'r ceisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn**
- **Mae Nodyn 6 yn rhestru'r arbedion, yr enillion effeithlonrwydd a'r tanwariant yn ystod y flwyddyn**
- **Mae Nodyn 7 yn rhoi trosolwg ar yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn**
- **Mae Nodyn 8 yn rhoi trosolwg ar ganran y gwariant hyd yma eleni o'i gymharu â'r llynedd**

**Y NEGESEUON ALLWEDDOL ac ASESIAD RISG O'R GYLLIDEB A GYMERADWYWYD AR GYFER Y FLWYDDYN (£47.751miliwn)**

3. **Gosododd Llywodraeth Cymru gyllideb atodol ar 14 Gorffennaf (GEN-LD7634) a oedd yn cynnwys cynnydd o £1.95miliwn yng nghyllideb Comisiwn y Cynulliad a fydd, os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad, yn cynyddu cyllideb y Comisiwn i £49.701miliwn; cynnydd ar gyfer prosiect UNO oedd hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cadarnhau nad yw dyddiad wedi'i bennu eto i drafod y cynnig cyllidebol atodol.**

4. **Dyma'r meysydd allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt:**

   ⊗ **Prosiect UNO – daeth hyn i sylw'r Bwrdd y mis diwethaf ac er bod ansicrwydd o hyd ynglŷn ag amseriad, mae'r prosiect yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod cyn lleied o risgiau â phosibl.**

   ⊗ **Prosiect y Pierhead – mae gwaith ar gam 2 wedi dechrau ac ar hyn o bryd y mae o fewn y gyllideb. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei fonitro i sicrhau bod risgiau ariannol yn cael eu rheoli.**

   ⊗ **Hyblygrwydd yng nghyllideb cyffredinol y Comisiwn a'r gronfa wrth gefn. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm y ceisiadau posibl am arian o'r gronfa wrth gefn (£1.3m) yn uwch na'r arian sydd ar gael (£1.4m) ond rydym wedi nodi arbedion a thanwariant ychwanegol gyda chymorth rheolwyr cyllidebau a ddylai unioni'r diffyg. Ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd, sydd i'w weld yn Nodyn 7 yn yr atodiad, yw tanwariant cyffredinol o oddeutu £0.229 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, o'i gymharu â £0.1 miliwn ym mis Gorffennaf. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau gwybodus ynglŷn ag arbedion a thanwariant ychwanegol ac ynglŷn â'r pwysau ariannol ychwanegol rydym yn disgwyl eu hwynebu.**

5. ✓ **Mae'r dull newydd o ragweld gwariant yn awr yn cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau ar ôl cynnal sesiwn wybodaeth**

ariannol, ac mae angen y ffurflenni cychwynnol erbyn dydd Gwener 25 Medi. Drwy'r dull newydd hwn, bydd modd rhagweld ffigurau alldro'n fwy manwl gywir a bydd hyn, yn ei dro, yn sylfaen i benderfyniadau wrth symud ymlaen. Bydd rhagolygon alldro'n cael eu cynnwys ym mhob adroddiad ariannol dilynol a chaiff adolygiad hanner blwyddyn llawn ei gynnal gyda gwasanaethau yn ystod mis Hydref.

6. ✓ Mae rhywfaint o drafferthion o hyd yng nghyswllt gwariant yr ymrwymwyd iddo a phennu cyllidebau. Mae'r Tîm Taliadau wedi cynnal gweithdy mapio proses i nodi unrhyw broblemau ag archebion prynu a bydd yn gweithio gyda gwasanaethau i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi. Dylai hyn helpu i ddelio â'r anawsterau sy'n gysylltiedig â phennu cyllidebau.

7. ✓ Ers mis Ebrill, mae bron £1.0m wedi'i drosglwyddo o gyllidebau'r gwasanaethau i'r gronfa wrth gefn ac mae arbedion a thanwariant ychwanegol wedi'u nodi. Mae rhagor o fanylion yn Nodyn 6 - yr elfennau mwyaf arwyddocaol yw'r £0.3miliwn a ailddyrannwyd i brosiect y Pierhead a'r £0.3miliwn o arian wrth gefn ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau nad oes ei angen mwyach, ym marn y Panel Adolygu Annibynnol. Ailddyrannwyd £0.7 miliwn o dan y polisi trosglwyddo. Byddwn yn adolygu cynlluniau effeithlonrwydd y gwasanaethau ym mis Hydref ac rydym yn cydnabod bod angen rhoi rhagor o gyngor a chymorth i fwrw ymlaen â'r agenda effeithlonrwydd.

**ARGYMHELLION I'R BWRDD**

8. **Rydym yn argymell bod aelodau'r Bwrdd yn:**
   a. **Ystyried pa mor briodol yw'r amrywiannau ym mherfformiad cyllidebol y gwahanol feysydd gwasanaeth ac a ellir eu cyfiawnhau**
   b. **Tynnu sylw at unrhyw faterion arwyddocaol na ddaeth i'r amlwg yn y rhagolygon alldro. Gall y rhain gynnwys cynnydd yn y costau a ragwelwyd, neu arbedion/tanwariant posibl na nodwyd cynt**
   c. **Adolygu'r risgiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad ac ystyried unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau hyn.**

# ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol
### *1. Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Awst 2009-10*


| **Gwasanaeth** | **Cyllideb a bennwyd (£'000)** | **Gwir wariant hyd yma (£'000)** | **Cyllideb sy'n weddill ar gyfer y cyfnod (£'000)** | **Amrywiant %** | **Cyllideb flynyddol 2009-10 (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 708 | 658 | 50 | 7 | 1,786 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 251 | 214 | 37 | 15 | 647 |
| | **959** | **872** | **87** | **9** | **2,433** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 612 | 614 | -2 | 0 | 1,526 |
| Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau | 2,724 | 2,722 | 2 | 0 | 7,660 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 307 | 309 | -2 | -1 | 723 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 5,460 | 5,080 | 380 | 7 | 13,045 |
| TGCh | 1,562 | 1,517 | 45 | 3 | 4,818 |
| Cyfathrebu Allanol | 1,041 | 878 | 163 | 16 | 2,724 |
| Diogelwch | 818 | 819 | -1 | 0 | 2,281 |
| | **12,524** | **11,939** | **585** | **5** | **32,777** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 772 | 765 | 7 | 1 | 1,922 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 438 | 418 | 20 | 5 | 1,161 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol | 740 | 697 | 43 | 7 | 1,993 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 509 | 423 | 86 | 17 | 1,345 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 39 | 37 | 2 | 5 | 95 |
| | **2,498** | **2,340** | **158** | **7** | **6,516** |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | | | | | **41,726** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | 1,750 | 1,815 | -65 | -4 | 4,200 |
| Cronfa Bensiwn yr Aelodau | | | | | 500 |
| Cronfa wrth gefn | | | | | 1,325 |
| **Cyfansymiau** | **17,731** | **16,966** | **765** | **4** | **47,751** |

## 2. *Eglurhad o'r amrywiannau sy'n fwy na'r goddefiant o 2% ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben fis Awst 2009*

| Gwasanaeth/ Amrywiant %/£'000 | Rheswm dros yr amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|
| **Yr Uned Gorfforaethol**<br>7% yn llai na'r gyllideb<br>50 | Oherwydd costau Archwiliadau Allanol sydd wedi cronni yn 2008-09 (40) | Yn dal i aros am anfonebau ar gyfer gwaith a wnaed y llynedd. Gan na fydd costau'r flwyddyn ariannol bresennol yn cael eu talu tan ddiwedd y flwyddyn, bydd y llinell wariant hon yn cael ei phennu eto i adlewyrchu hyn. |
| **Y Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>15% yn llai na'r gyllideb<br>37 | Tanwario ar gostau staff oherwydd swyddi gwag (37). | Mae'r swyddi gwag 1x G7 ac 1x SEO wedi'u llenwi'n awr. Mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi nodi tanwariant yn erbyn y llinell wariant hon a gaiff ei ryddhau i'r gronfa wrth gefn. |
| **Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau**<br>7% yn llai na'r gyllideb<br>380 | Nid yw Aelodau wedi hawlio'u cyflogau a'u lwfansau llawn (284), ac roedd llai o hawliadau costau teithio na'r disgwyl (52) | Caiff £0.226 miliwn ei ryddhau i'w gronfa wrth gefn, a bydd angen pennu'r llinell wariant eto. Mae'r swm i'w drosglwyddo eisoes wedi'i gynnwys yn y rhagolwg o'r alldro. |
| **TGCh**<br>3% yn llai na'r gyllideb<br>45 | Tanwario ar brosiectau TG oherwydd addasiadau diwedd blwyddyn 2008-09 (73). Gorwariwyd ar gostau darlledu (11) trwyddedau a chynnal a chadw (7) | Mae'r Cydgysylltydd Ariannol yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yng nghyswllt anfonebau cytundeb Siemens, nad ydynt wedi dod i law eto. |
| **Cyfathrebu Allanol**<br>16% yn llai na'r gyllideb<br>163 | Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd (95), oedi yng ngham 2 prosiect y Pierhead (44), swyddi gwag (10) | Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn treialu system newydd ar gyfer rhagweld gwariant a bydd llinellau gwariant newydd yn cael eu pennu'n unol â hynny. |
| **Y Siambr a Deddfwriaeth**<br>4% yn llai na'r gyllideb<br>20 | Yn bennaf oherwydd tanwario ar gostau staff (18) | Mae'r gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu a bydd yn recriwtio staff ychwanegol cyn bo hir a fydd yn defnyddio'r tanwariant yn ystod y flwyddyn y ariannol. |
| **Cyfieithu a Chofnodi**<br>6% yn llai na'r gyllideb<br>43 | Tanwario ar gostau staff (13), costau teithio a chynhaliaeth staff (9) a chyfieithu allanol (14) | Gellir priodol hyn yn bennaf i lai o waith cyfieithu yn ystod y toriad. Dylai'r costau gynyddu wrth i'r tymor fynd rhagddo. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth y Pwyllgorau**<br>17% yn llai na'r gyllideb<br>86 | Tanwario ar gostau staff (39) oherwydd swyddi gwag, costau teithio ACau a staff gan nad yw rhai ymweliadau wedi digwydd eto (24) a threuliau – cynghorwyr / tystion (12). | Mae'r gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu ar hyn o bryd a bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i wneud hyn.<br><br>Mae'r gwaith y disgwyliwyd talu amdano o'r gyllideb treuliau – cynghorwyr / tystion wedi'i ohirio, gan arwain at y tanwariant. Bydd llinell wariant newydd yn cael ei phennu eto gan ystyried y dyddiad cychwyn newydd. |

### 3. *Y gyllideb a bennwyd yn erbyn gwir wariant hyd yma – yn ôl natur y gwariant*



## *4. Arian a drosglwyddwyd*

| **Balans y gronfa wrth gefn :** | Rhyddhawyd o gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Dyrannwyd i gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Balans y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y mis (£'000) |
|---|---|---|---|
| *Balans gweithredol agoriadol 01/04/09* | | | *983* |
| Ebrill | 793 | -461 | 1,315 |
| Mai | 210 | - | 1,525 |
| Mehefin | - | -60 | 1,465 |
| Gorffennaf | - | - | - |
| Awst | - | -166 | 1,299 |
| **Balans cyfredol** | **1,003** | **-687** | **1,299** |

# ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *5. Crynodeb o'r ceisiadau posibl am arian ar 31 Awst 2009*

| Gwasanaeth | Ceisiadau posibl am arian | Amcangyfrif o werth (£'000) y ceisiadau posibl am arian ar 31 Gorffennaf 2009 | Y sefyllfa ar 31 Awst 2009 | Newidiadau yn yr amcangyfrif o werth (£'000) | Rhyddhawyd i'r gronfa wrth gefn fis Awst 2009 (£'000) | Dyrannwyd o'r gronfa wrth gefn i gyllideb gwasanaethau ym mis Awst 2009 (£'000) | Amcangyfrif o werth y ceisiadau posibl am arian ar 31 Awst 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu Allanol | Cam 2 (a3?) Prosiect y Pierhead | 750 | Cyllideb o £1.1 miliwn at ei gilydd gan gynnwys £0.3 miliwn o gyllideb yr Adran Cyfathrebu Allanol | | | | 750 |
| TGCh | Y Rhwydwaith Unedig | 717 | Cyhyd ag y caiff y gyllideb atodol ei chymeradwyo (cais wedi gostwng gan fod angen £250k yn 2010-11) | -217 | | | 500 |
| | Newidiadau yn FTR Gold | 10 | Heb ei ddyrannu eto | | | | 10 |
| | Gosod cyfarpar technegol | 34 | Heb ei ddyrannu eto | 6 | | 40 | |
| Yr Uned Gorfforaethol | Swyddi newydd – rhaglen newid | 114 | Cais newydd ym mis Mehefin – Heb ei ddyrannu eto . | | | | 114 |
| | Rhagor o waith gan y Panel Adolygu Aelodau – angen rhagor o arian | 5 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes | | | | 53 |
| | Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am brosiect UNO | 5 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes | | | | 5 |
| Rheoli Ystadau | Costau adnewyddu ychwanegol 3A | 87 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes | | | | 87 |
| | Sgriniau/bythau Cofnod y Trafodion | 25 | Heb ei ddyrannu eto. Yn aros am achos busnes | | | | 25 |
| | Y Tîm Gwyrdd | 16 | Heb ei ddyrannu eto (dilëwyd o gyllideb yr Uned Gorfforaethol). | | | | 16 |
| Adnoddau dynol | Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth | 100 | | | | -100 | |
| Cyllid | Swydd HEO ran amser | 36 | | -10 | | 26 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 1,947 | | -221 | -166 | 1,560 |

## ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *6. Arian a ryddhawyd o gyllideb gwasanaethau gan gynnwys effeithlonrwydd, arbedion a gostyngiad yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn*

| Gwasanaeth | Rhyddhawyd o'r cyfrif cynghorwyr – treuliau/tystion, gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | Effeithlonrwydd cylchol (£'000) | Effeithlonrwydd anghylchol (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | Rhyddhawyd o'r gyllideb staff asiantaeth gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 28 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Rhyddhawyd o'r gyllideb Glanhau Ffenestri – gan fod y gost yn sefydlog a doedd dim angen rhagor o arian . | | 40 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb Sychlanhau, gan nad oes costau sychlanhau ar ôl prynu gwisgoedd newydd | | 11 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb sbwriel, yn dilyn camgymeriad wrth ddyrannu | | 3 |
| | Rhyddhawyd o gyllideb Costau Teithio a Chynhaliaeth Staff Cymorth yr Aelodau, gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 58 |
| Adnoddau Dynol yr Aelodau | Rhyddhawyd o'r gyllideb costau teithio a chynhaliaeth staff cymorth yr Aelodau oherwydd, yn ôl gwariant yn y gorffennol, ni ddisgwylir iddo gael ei wario | | 87 |
| | Rhyddhawyd o brosiect cronfa ddata'r AC | | 8 |
| | Does dim angen cronfa wrth gefn yr Aelodau mwyach | | 330 |
| Cyfathrebu Allanol | Rhyddhawyd arian o gyllideb Marchnata a Chyhoeddusrwydd i ariannu prosiect y Pierhead | | 300 |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | Rhyddhawyd arian o brosiect TGCh gan fod y gwaith yn cael ei wneud yn fewnol | | 40 |
| Yr Uned Gorfforaethol | Rhyddhawyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 19 |
| TGCh | Rhyddhawyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 4 |
| Adnoddau Dynol | Dyrannwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiect TGCh nad yw'n debygol o fynd rhagddo eleni | | 75 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **1,003** |

## ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *7. Y gorwariant / tanwariant terfynol a ragwelir*

| | *£'000* | *£'000* |
|---|---|---|
| **Y gyllideb wrth gefn wreiddiol** | | 1,000 |
| *Llai'r* arbedion effeithlonrwydd gofynnol (yn y gyllideb a gymeradwywyd) | | (250) |
| *Ychwanegu* arbedion a nodwyd cyn 1 Ebrill 2009 | | 233 |
| *Ychwanegu'r* arian wrth gefn yng nghyllideb yr Aelodau, nad oes ei angen mwyach | | 330 |
| *Ychwanegu* arbedion/tanwariant a nodwyd eisoes ers Ebrill 2009 | | 673 |
| *Llai* cronfeydd ychwanegol a ddyrannwyd eisoes i gyllidebau gwasanaethau | | (687) |
| **Balans cyfredol (Nodyn 4)** | | **1,299** |
| *Ychwanegu'r* elfen swyddi gwag– amcangyfrif o arbedion wrth aros i lenwi swyddi gwag | | 150 |
| *Ychwanegu'r* tanwariant disgwyliedig ar lwfansau Aelodau | | 500 |
| | | **1,949** |
| **Pwysau ariannol ychwanegol: (Nodyn 5)** | | |
| • Costau staffio ychwanegol (amrywiol) | (167) | |
| • Pierhead (net arbedion o £0.300m yng nghyllideb Cyfathrebu Allanol) | (750) | |
| • Costau ychwanegol 3A | (87) | |
| • Y Rhwydwaith Unedig | (500) | |
| • Mân symiau eraill | (56) | (1,560) |
| Is-gyfanswm | | **389** |
| • Cynnydd mewn dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | | (160) |
| **Balans (Gorwariant) /tanwariant a ragwelir** | | **229** |

# ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *8 . Cymharu perfformiad cyllidebol 2009-10 a 2008-09 drwy gymharu % y gyllideb a wariwyd hyd yma yn ystod y ddwy flynedd*

| **Gwasanaeth** | **2009-10 % y gwariant hyd yma** | **2008-09 % y gwariant hyd yma** |
|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 93 | 96 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 85 | 74 |
| | **91** | **91** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | |
| Adnoddau Dynol | 100 | 101 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 100 | 99 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 101 | 102 |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 93 | 96 |
| TGCh | 97 | 100 |
| Cyfathrebu Allanol | 84 | 99 |
| Diogelwch [1] | 100 | - |
| | **95** | **98** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 99 | 89 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 96 | 87 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 94 | 97 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 83 | 95 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 95 | 94 |
| | **94** | **93** |
| Cyfanswm - eitemau arian parod | **95** | **97** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | 104 | - |
| Cronfa Bensiwn yr Aelodau | **-** | **-** |
| Cronfa wrth gefn | - | - |
| Cronfa wrth gefn yr Aelodau | - | - |
| **Cyfansymiau** | **96** | **97** |

[1] Roedd Diogelwch yn rhan o'r Gangen Rheoli Diogelwch a Chyfleusterau yn 2008-09 ond mae gan y gangen ei chyllideb ei hun ers dechrau 2009-10